



## Canllawiau i Weithwyr Achos a Swyddogion Technegol ar ymweld â chartrefi cleientiaid a lleoliadau eraill

Mae'r Canllawiau hyn yn nodi'r gofynion gweithredol sylfaenol ar gyfer staff rheng flaen Gofal a Thrwsio wrth iddynt ailddechrau gweithio yng nghartrefi cleientiaid a chyfarfod ag eraill y tu allan i'r swyddfa.

### Cynnwys

- ▶ Diben y Canllawiau
- ▶ Gofynion
- ▶ Cwmpas a chyfrifoldebau'r gyfer y canllawiau
- ▶ Ystyriaethau cyffredinol
- ▶ Sefyllfaoedd penodol– teithio, ymweliadau â'r cartref, lleoliadau cymunedol, cyfarfodydd
- ▶ Dyddiadau allweddol
- ▶ ATODIAD A: Aseiad Risg Ymweliad-cartref-i'w gwblhau a'i gofnodi ar **CARIS cyn ymweliad cartref pob cleient.**
- ▶ ATODIAD B: RHESTR WIRIO GRYNO RHEOLAETHAU CORONAFEIRWS

### Diben y Canllawiau

1. Rhaid i bob asiantaeth Gofal a Thrwsio ailddechrau cyflawni ei gwasanaethau atgyweirio, addasu a gwella yn unol â'r broses o lacio mesurau *Deddf Coronafeirws* a gyflwynwyd gan Lywodraethau Cymru a'r DU i reoli'r pandemig.
2. Mae'r canllawiau hyn yn cydnabod bod Covid-19 yn cynnig bygythiad parhaus, bod pobl hŷn yn fwy agored i niwed yn glinigol a bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau Gofal a Thrwsio yn cael eu darparu yng nghartref y cleient lle y bydd yn parhau i fod yn bosibl trosglwyddo'r haint yn resbiradol, drwy'r aer a/neu ar arwyneb.
3. **Nod y Canllawiau yw lleihau, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl, y potensial i drosglwyddo Covid-19 i'w staff rheng flaen, neu ganddynt, tra'n gweithio yng nghartrefi cleientiaid ac mewn mannau eraill yn y gymuned.**
4. Mae'r Canllawiau yn nodi dull ymarferol sy'n seiliedig ar risg ar gyfer gweithdrefnau gweithredu asiantaethau. Mae'n ceisio tawelu meddyliau staff, cleientiaid ac eraill maen nhw'n gweithio gyda nhw drwy nodi bod Gofal a Thrwsio yn ystyried iechyd a diogelwch o ddifrif. Mae'n croesgyfeirio at ein *Canllawiau Cenedlaethol ar Gyfarpar Diogelu Personol*.
5. Nid datganiad o'r gyfraith yw'r Canllawiau ond mae'n seiliedig ar gyngor y llywodraeth ar [gadw pellter corfforol](#) a [gwarchod](#), ar [drefniadau yn y gweithle](#),

[teithio'n ddiogel](#) a [gweithio'n ddiogel mewn cartrefi pobl eraill](#), ac ar [addasu tai](#). Mae'n destun adolygiad parhaus yn unol â'r diweddariadau i wybodaeth a chyingor swyddogol.

**Yn Atodiad B mae 'Rhestr Wirio Gryno' o'r Canllawiau hyn.**

## Gofynion ar Asiantaethau

### Disgwyliadau'r Llywodraeth ar ailddechrau 'busnes fel arfer'

6. Rhaid i bob asiantaeth Gofal a Thrwsio ailddechrau cyflawni eu gwasanaethau atgyweirio, addasu a gwella. Wrth wneud hynny, dylai asiantaethau roi sylw i [Ganllawiau Llywodraeth Cymru](#) (13 Gorffennaf 2020) sy'n:
  - egluro nad yw ei ddisgwyliadau yn ymwneud ag **p'un a** yw busnes yn gweithredu ond ynghylch **sut** - *"cymryd camau cymesur lle mae'n ymarferol gwneud hynny"*;
  - rhagweld mesurau rhesymol, penodol i'r sefydliad sy'n ofynnol yn unol â natur y busnes;
  - disgwyl i asesiadau risg ystyried nid yn unig y risgiau o drosglwyddo feirysau ond hefyd y risgiau o [beidio](#) ag ailddechrau gweithgarwch gwasanaeth/busnes - *"Fel enghraifft, ni all y rhan fwyaf o ymarferwyr meddygol a gofalwyr aros 2 fetr i ffwrdd oddi wrth glaf wrth roi triniaeth ... Yn amlwg, ni fyddai atal triniaeth yn fesur rhesymol, ac ni fyddai angen hynny ac na ddylai fod angen hynny"*;
  - rhoi cadw pellter corfforol (2 fetr) wrth wraidd rheoli trosglwyddo feirysau ond yn derbyn nad yw bob amser yn bosibl – *"gweithio mewn mannau cyfyng, er enghraifft atgyweirio seilwaith ar gyfer cyfleustodau"* – ac yn ei gwneud yn ofynnol bod mesurau ychwanegol yn eu lle mewn amgylchiadau o'r fath.

### Arferion cyflogaeth diogel

7. Mae'n rhaid i bob asiantaeth fod wedi sefydlu polisiau ['gweithio'n ddiogel yn ystod y coronafeirws](#) penodol yn lleol ar gyfer eu gweithwyr. Bydd y gweithdrefnau lleol yn cynnwys: trefniadau ffit i weithio, trefniadau gweithio diogel yn y swyddfa (gan gynnwys dulliau ystwyth, hyblyg, pell a/neu o gartref) a gweithdrefnau dychwelyd i'r gwaith diogel i'r rhai sydd wedi bod yn gwella o Covid-19, yn gwarchod eu hunain neu'n hunan-ynysu (gan gynnwys o dan ofynion [profi, olrhain, diogelu](#)).

### Arferion gweithredu diogel

8. **Mae'r Canllawiau hyn yn berthnasol i ymweliadau cartref a chyfarfodydd y tu allan i'r swyddfa.** Mae'n rhaid i bob asiantaeth ddilyn ei gweithdrefnau, a/neu eu hadlewyrchu o fewn eu gweithdrefnau lleol eu hunain, er mwyn sicrhau gweithio diogel ledled Cymru. Mae'r Canllawiau yn rhoi sylw i'r canlynol:
  - teithio i, o, a rhwng mannau gwaith
  - ymweld â chartrefi, gan gynnwys proses benodol ar gyfer asesu risg
  - ymweld a/neu gyfarfodydd mewn lleoliadau eraill 'nad ydynt mewn swyddfa'.

## Cwmpas a chyfrifoldebau am y Canllawiau hyn

9. Mae'r Canllawiau hyn yn ymwneud yn benodol â:
  - Gweithwyr Achos, Gweithwyr Achos Technegol a Swyddogion Technegol Gofal a Thrwsio
  - Staff Prosiect, gan gynnwys Gweithwyr Achos Ymdopi'n Well a Swyddogion Cymhennu Prosiect Attic
  - Gweithwyr Achos Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach<sup>1</sup>
10. Mae'r **Prif Swyddog** yn gyfrifol am sicrhau bod holl staff yr asiantaeth yn gyfarwydd â'r Canllawiau hyn a'r goblygiadau gweithredol ar gyfer eu gwaith.
11. Rhaid i **bob aelod o staff** y mae'r Canllawiau hyn yn berthnasol iddynt weithredu o fewn ei weithdrefnau. Rhaid trafod unrhyw anawsterau sy'n benodol i achos o ran cydymffurfio gyda'r Prif Swyddog a'u cofnodi yn y cofnod achos perthnasol a/neu'r llyfr digwyddiadau fel y bo'n briodol.

## Ystyriaethau cyffredinol

12. Mae'n ddyletswydd ar **bawb** i ofalu am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, ac am iechyd pobl eraill y mae eu gwaith yn effeithio arnynt. Rhaid i bawb asesu a rheoli risgiau COVID-19.
13. Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar **asiantaethau** i ddiogelu eu staff, a'r rhai y maen nhw'n gweithio gyda nhw, rhag unrhyw risg i'w hiechyd a'u diogelwch. Rhaid iddynt gael gweithdrefnau gwaith diogel yn eu lle yn benodol er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo coronafeirws. Mae hyn yn cynnwys dilyn cyngor [Covid-19 y Llywodraeth i fusnesau](#) i wneud y canlynol:
  - galluogi ac annog mwy o olchi dwylo, diheintio a glanhau arwynebau;
  - ystyried ac, os yw'n bosibl, hwyluso gweithio gartref neu weithio ystwyth;
  - gwneud darpariaeth ar gyfer cadw pellter corfforol (pellter o 2m rhwng unigolion) yn y swyddfa ac wrth weithio mewn man arall, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol;
  - ystyried yr angen am weithgareddau nad ydynt yn gallu cadw pellter corfforol ac, os yw'n hanfodol i fusnes, rhoi camau lliniaru ar waith i leihau'r risg o drosglwyddo coronafeirws;
  - darparu, hyfforddi ac arwain staff i ddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn ddiogel ac yn briodol;
  - ystyried beth yw perygl gweithwyr unigol o COVID-19 o ganlyniad i, er enghraifft, oedran, iechyd, ethnigrwydd, neu gyfrifoldebau gofalu;

---

<sup>1</sup>Dylai Gweithwyr Achos Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach ystyried y Canllawiau hyn ond dylent fod yn ymwybodol y gall gofynion y GIG/Byrddau Iechyd Lleol gael blaenoriaeth mewn safleoedd y GIG/BILL.

- sicrhau bod yr holl staff rheng flaen yn deall eu rolau fel gweithwyr critigol (allweddol) coronafeirws<sup>2</sup> a'u bod yn gallu cyrchu [cyfleoedd Profi, Olrhain a Diogelu](#) y maen nhw'n gymwys amdanynt.

#### 14. Mae'n rhaid i **staff** wneud y canlynol:

- monitro eu hiechyd eu hunain, dilyn gweithdrefnau'r asiantaeth os bydd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch cael Covid-19 neu symptomau sy'n arwydd o Covid-19 a manteisio ar eu cymhwysedd i gael profion Covid-19 fel y bo'n briodol;
- dilyn, ac annog eraill i ddilyn, yr holl weithdrefnau amddiffynnol a roddwyd ar waith gan yr Asiantaeth;
- bod yn llym wrth [olchi dwylo](#), hylendid pesychu a thisian (dilyn camau [ei ddal, ei daflu, ei ddifa](#)), ac osgoi cyffwrdd y wyneb, llygaid, trwyn neu'r geg;
- sicrhau bod ganddynt Gyfarpar Diogelu Personol gyda nhw bob amser, a deall sut i'w ddefnyddio'n ddiogel - diheintydd dwylo, cadachau diheintio, hancesi, masgiau tafladwy, menig tafladwy a bagiau bach i gael gwared â Chyfarpar Diogelu Personol a ddefnyddiwyd yn ddiogel;
- sicrhau bod ffonau/cyfrifiaduron llechen, bagiau, beiros, gwaith papur, ffolderi, ffeiliau ac offer, a ddefnyddir mewn gwahanol fannau gwaith, yn cael eu diheintio cyn ac ar ôl eu defnyddio.

15. Efallai y bydd asiantaethau am ystyried gwerth cynnwys profion tymheredd yn nhrefn ddyddiol Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Gweithwyr Achos a Swyddogion Technegol a/neu yn benodol cyn cynnal ymweliad cartref. Os ystyrir bod hynny'n briodol, cynghorir Asiantaethau i ymgynghori â staff a sicrhau cydsyniad y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol, a sicrhau bod Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn cael ei gwblhau oherwydd natur sensitif y wybodaeth am weithiwr sy'n cael ei chofnodi yn y broses.

## Sefyllfaoedd penodol

### Teithio

#### 16. Dylai staff geisio gwneud y canlynol:

- ▶ Cyfyngu ar faint y teithio ac yn enwedig teithio a rennir.
- ▶ Cadw pellter corfforol drwy gydol y diwrnod gwaith a lle bynnag y bo'n bosibl gan gynnwys wrth gyrraedd, gadael a theithio rhwng y swyddfa, cartrefi cleientiaid, cyfarfodydd allanol a lleoliadau cymunedol eraill.
- ▶ Sicrhau bod y dwylo'n cael eu diheintio, bod Cyfarpar Diogelu Personol yn cael ei newid a bod unrhyw eitemau gwaith hanfodol (er enghraifft, ffonau,

---

<sup>2</sup><https://llyw.cymru/gweithwyr-hanfodol-allweddol-y-coronafeirws-cymhwysedd-prawf>

cyfrifiaduron llechen, bagiau, deunydd ysgrifennu, offer) yn cael eu glanhau/diheintio'n rheolaidd.

**17. Cyn ac yn ystod pob taith** i ac o weithleoedd, a rhyngddynt, dylai Staff:

- a. ystyried diben y daith - a all galwad ffôn, e-bost, galwad fideo, cydweithwyr ar y safle, gwasanaethau dosbarthu ar-lein/post neu weithio o bell arall gynnig dull amgen o gyflawni ei ddiben neu ran o'i ddiben?
- b. golchi/diheintio dwylo cyn y daith, a theithio i/o'r gwaith a rhwng manau gwaith ar eich pen eich hun, yn eich trafndiaeth breifat, glân;
- c. os nad oes modd osgoi teithio gydag eraill a/neu os yw cerbyd a rennir yn cael ei ddefnyddio, defnyddiwch y mesurau lliniaru canlynol:
  - cyfyngu ar nifer y bobl sydd yn y cerbyd neu sy'n ei ddefnyddio;
  - cynnal awyru da - ffenestri ar agor, teithwyr yn wynebu oddi wrth ei gilydd;
  - glanhau'r cerbyd yn rheolaidd gan ddefnyddio menig a chynhyrchion glanhau safonol (gan dalu sylw arbennig i handlenni, gwregysau diogelwch, olwynion llywio, ffyn gêr a 'phwyntiau cyswllt' gywrwr a theithwyr eraill);
- d. wrth gyrraedd a gadael, diheintio dwylo ac unrhyw eitemau gwaith hanfodol (er enghraifft, ffonau, cyfrifiaduron llechen, bagiau, deunydd ysgrifennu ac offer) sy'n cael eu defnyddio, a chadw pellter corfforol drwyddi draw, gan gynnwys wrth fynd i mewn i adeilad a'i adael;
- e. newid Cyfarpar Diogelu Personol defnydd sengl a diheintio Cyfarpar Diogelu Personol arall rhwng lleoliadau - gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol glân cyn mynd allan o'r car, diosg Cyfarpar Diogelu Personol cyn mynd i mewn i'r car a defnyddio bag dwbl i waredu Cyfarpar Diogelu Personol ar ôl 72 awr (gweler y [Canllawiau Cenedlaethol ar Gyfarpar Diogelu Personol](#) am fanylion llawn).

## Ymweliadau cartref

**18.** Dylai staff geisio gwneud y canlynol:

- ▶ Cyfyngu ar nifer yr ymweliadau cartref a'u hyd.
- ▶ Cynnal, a chofnodi yn CARIS, Asesiad Risg o statws Covid-19 pob cartref a blaenoriaeth y gwaith sydd ei angen **cyn** ymweld (**Atodiad A**).
- ▶ Sicrhau bod cleientiaid yn deall eu rôl a'u cyfrifoldeb am leihau trosglwyddiad coronafeirws, a'r canlyniadau os na chyflawnir y rhain.
- ▶ Cadw pellter corfforol lle bynnag y bo'n bosibl drwy gydol yr ymweliad cartref, gan gynnwys wrth gyrraedd, gadael a symud o amgylch y cartref, a defnyddio'r Cyfarpar Diogelu Personol priodol yn unol â'r Asesiad Risg.

**19. Cyn pob ymweliad â'r cartref**, ac ar y cyd â'r gweithdrefnau teithio, dylai Staff:

- a. ystyried diben yr ymweliad â'r cartref a natur y gwaith - a all galwad ffôn, e-bost, galwad fideo, cydweithwyr ar y safle, gwasanaethau dosbarthu ar-

lein/post neu weithio o bell arall gynnig opsiwn arall a/neu leihau'r amser a dreulir yn y cartref?

- b. cyn yr ymweliad, cwblhau Asesiad Risg Ymweliad Cartref Atodiad A gyda'r cleient a chytuno ar agweddau ymarferol yr ymweliad â'r cartref, gan gynnwys:
- natur/brys y gwaith sydd ei angen, ynghyd ag unrhyw risgiau Covid-19 sy'n benodol i'r aelwyd - bydd y rhain yn pennu amseriad yr ymweliad ac unrhyw Gyfarpar Diogelu Personol sy'n ychwanegol at y masg wyneb a'r menig tafladwy;
  - gwneud yn glir yr angen am gadw pellter corfforol a hylendid da, presenoldeb y cleient/preswylwyr y tŷ yn unig a'r posibilrwydd y gellir dod ag ymweliad i ben os na fydd y gofynion hyn yn cael eu dilyn;
  - ffyrdd o osgoi cyswllt wyneb yn wyneb (yn arbennig wrth y drws ffyrnt), nodi mannau yn y cartref lle nad yw cadw pellter corfforol yn bosibl, y potensial ar gyfer defnyddio ardal y tu allan ar gyfer trafodaethau a gallu'r cleient i ddefnyddio (ac unrhyw angen i'r asiantaeth gyflenwi) Cyfarpar Diogelu Personol yn ystod yr ymweliad;
  - trefnu i ddrysau mewnol fod ar agor ymlaen llaw er mwyn lleihau'r cysylltiad â handlenni.

## 20. Yn ystod pob ymweliad cartref, dylai Staff:

- a. adolygu'r Asesiad Risg gyda'r cleient yn union cyn/wrth gyrraedd i sefydlu unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau, bod yn barod i gynyddu'r defnydd o Gyfarpar Diogelu Personol a/neu aildrefnu yn ôl yr angen;
- b. defnyddio'r Cyfarpar Diogelu Personol sy'n ofynnol yn ôl yr Asesiad Risg, ei roi ymlaen yn y car a'i dynnu i ffwrdd cyn mynd yn ôl i'r car, diheintio'r dwylo cyn ac ar ôl gwisgo/diosg, a dilyn unrhyw weithdrefn gwirio tymheredd y cytunir arni'n lleol;
- c. sicrhau bod pob un a dim ond yr eitemau hynny sy'n hanfodol i'r ymweliad (er enghraifft, ffonau, cyfrifiaduron llechen, bagiau, gwaith papur, offer a chyfarpar) sy'n cael eu cludo i mewn i'r tŷ, wedi cael eu diheintio eisoes, nad oes angen dychwelyd i'r car yn ystod yr ymweliad a'u bod yn cael eu diheintio yn dilyn pob ymweliad;
- d. rhoi unrhyw Gyfarpar Diogelu Personol y cytunwyd arno i'r cleient/eraill sy'n bresennol, gan sicrhau nad oes neb yn bresennol heblaw'r rhai y cytunwyd arnynt yn flaenorol, cadw pellter corfforol drwy gydol yr ymweliad, osgoi bod mewn ystafelloedd/mannau bach gydag eraill, lleihau'r cysylltiad ag arwynebau/eitemau'r cartref, gwrthod unrhyw letygarwch a gynigir a chynnal trafodaethau y tu allan lle bynnag y bo'n bosibl;
- e. osgoi rhannu'r defnydd o eitemau, darparu pennau ysgrifennu a sicrhau bod unrhyw offer ysgrifennu yn cael ei reoli'n ddyblyg, gan ddefnyddio ffolderi clir/plastig i storio gwaith papur mae'r cleient wedi cyffwrdd ynddo;



- f. os nad yw cadw pellter corfforol yn bosibl neu os fydd yn cael ei gyfaddawdu yn ystod yr ymweliad, efallai y bydd y mesurau lliniaru canlynol yn briodol:
- golchi dwylo ac eitemau'n amlach, ac yn enwedig ar ôl unrhyw beswch, tisian neu chwythu trwyn gerllaw;
  - y defnydd ychwanegol o Gyfarpar Diogelu Personol, megis amddiffynwyr llygaid, ffedogau a gwarchodwyr traed, er mwyn cyfyngu ar gyswllt resbiradol a/neu wyneb;
  - cynyddu cadw pellter corfforol, cynyddu awyru dan do (agor ffenestri a/neu ddrysau os yw'n ddiogel i wneud hynny) a/neu gynnal trafodaethau y tu allan;
  - dod â'r ymweliad cartref i ben hyd nes y gellir ei gwblhau'n ddiogel.

## Lleoliadau eraill

21. Dylai staff geisio gwneud y canlynol:

- ▶ Eu bodloni eu hunain o'r angen i ymweld â lleoliadau eraill, gan gynnwys lleoliadau cymunedol a chyhoeddus fel siopau, fferyllfeydd, canolfannau iechyd a chymunedol, ac amgylcheddau swyddfa eraill nad ydynt o dan reolaeth yr asiantaeth.
- ▶ Asesu natur y lleoliad a/neu'r bobl dan sylw, y mesurau diogelwch Covid-19 sydd ar waith, a'r rhagofalon Covid-19 angenrheidiol sydd eu hangen, gan gynnwys yr angen am Gyfarpar Diogelu Personol.
- ▶ Cadw pellter corfforol lle bynnag y bo modd drwy gydol yr ymweliad/cyfarfod, golchi neu ddiheintio dwylo ac unrhyw eitemau sy'n cael eu defnyddio (gan gynnwys bagiau, ffonau, byrddau, offer) wrth gyrraedd a gadael.

22. **Cyn ac yn ystod pob ymweliad â lleoliad nad yw'n swyddfa**, ac ar y cyd â'r gweithdrefnau teithio, dylai Staff:

- a. ystyried diben yr ymweliad/cyfarfod - a all galwad ffôn, e-bost, galwad fideo, cydweithwyr ar y safle, gwasanaethau dosbarthu ar-lein/post neu weithio o bell arall gynnig opsiwn arall a/neu leihau'r amser a dreulir yn y lleoliad?
- b. sicrhau bod pob un a dim ond yr eitemau hynny sy'n hanfodol i'r ymweliad/cyfarfod (er enghraifft, ffonau, cyfrifiaduron llechen, bagiau ac offer) sy'n cael eu defnyddio a'u bod wedi cael eu diheintio/golchi gyda dŵr a glanedydd cyn ac ar ôl pob lleoliad;
- c. cadw pellter corfforol drwyddo draw, yn enwedig wrth fynedfeydd ac allanfeydd, mewn ciwiau neu wrth gownteri, osgoi bod mewn mannau bach gydag unrhyw un arall, lleihau'r cysylltiad ag arwynebau/nwyddau ac osgoi rhannu eitemau;
- d. os nad yw cadw pellter corfforol yn bosibl neu os fydd perygl ei gyfaddawdu yn ystod yr ymweliad, efallai y bydd y mesurau lliniaru canlynol yn briodol:
  - gwisgo masg wyneb tafladwy (yn dilyn y rheolau gwisgo, diosg a gwaredu uchod);

- golchi dwylo'n amlach nag arfer, am 20 eiliad gan ddefnyddio sebon a dŵr, neu ddiheintio dwylo - yn enwedig ar ôl pesychu, tisian neu chwythu'r trwyn;
  - y defnydd o Gyfarpar Diogelu Personol ychwanegol – fisorau a ffedogau – er mwyn cyfyngu ar y posibilrwydd o drosglwyddo'r feirws drwy gyswllt resbiradol a/neu'r wyneb (yn dilyn y rheolau uchod ynghylch gwisgo, diosg a gwaredu);
  - cynyddu awyru dan do (agor ffenestri/drysau os yw'n ddiogel i wneud hynny);
  - dod â'r ymweliad/cyfarfod i ben hyd nes y gellir ei wneud yn ddiogel
- g. sicrhau bod unrhyw waith papur yn cael ei reoli'n ddyblyg, gan ddefnyddio ffolderi clir/plastig i storio gwaith papur sy'n cael ei gyffwrdd gan eraill.

## Dyddiadau allweddol

23. Dogfen fyw, weithio yw hon. Bydd Care & Repair Cymru yn parhau i adolygu unrhyw ddiweddariadau mewn canllawiau Cyfarpar Diogelu Personol gan LIC, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG i sicrhau bod y canllawiau hyn mor benodol a chadarn â phosibl.

- Dyddiad cyflwyno: 21 Gorffennaf 2020
- Dyddiad yr adolygiad nesaf: Awst 2020

## Canllawiau Gofal a Thrwsio ychwanegol

24. Ategir y canllawiau hyn gan y dogfennau Gofal a Thrwsio canlynol:

- ▶ **Canllawiau cleientiaid Gofal a Thrwsio ar gyfer gweithwyr yn eu cartrefi** - [www.careandrepair.org.uk/files/8915/9413/7111/Client\\_guide\\_for\\_workers\\_in\\_their\\_homes\\_July\\_2020.pdf](http://www.careandrepair.org.uk/files/8915/9413/7111/Client_guide_for_workers_in_their_homes_July_2020.pdf)
- ▶ **Canllawiau i gontractwyr ar gyfer gweithio yng nghartrefi cleientiaid Gofal a Thrwsio** - [www.careandrepair.org.uk/files/3015/9413/8528/Contractor\\_guide\\_for\\_safe\\_working\\_in\\_client\\_homes\\_July\\_2020.pdf](http://www.careandrepair.org.uk/files/3015/9413/8528/Contractor_guide_for_safe_working_in_client_homes_July_2020.pdf)

**Canllawiau Cenedlaethol ar Weithrediadau Gofal a Thrwsio a Chyfarpar Diogelu Personol**



**Asesiad Risg Ymweliad-cartref-i'w gwblhau a'i gofnodi ar CARIS cyn ymweliad cartref pob cleient.**

Enw'r Cleient	CARIS/Cyfeirnod yr Achos
Enw Swyddog Asiantaeth	Rôl Swyddog Asiantaeth
<b>Os nad yw'n gleient</b> , enw'r person y cwblhawyd y ffurflen gydag ef a'i berthynas â'r cleient	Dyddiad yr asesiad risg

<b>1. GWYBODAETH GYFFREDINOL AM Y CARTREF A DIBEN YR YMWELIAD CARTREF</b>			
Nifer y bobl yn y cartref (gan gynnwys y cleient)?		Oed y cleient (a phreswylwyr eraill y tŷ)?	
Diben yr ymweliad arfaethedig		Natur unrhyw waith sydd ei angen	Hanfodol <sup>1</sup> / Arall <i>[dileer fel y bo'n briodol]</i>
Yn ystod yr ymweliad, a fydd unrhyw un arall yn bresennol/a ddylai unrhyw un arall fod yn bresennol?	Bydd/Dylai / Na fydd/Na ddylai	Os <i>Bydd/Dylai</i> , <i>pwy a pham?</i>	

<b>2. GWENDID IECHYD CYFFREDINOL I COVID-19</b>			
a. A allai'r cleient/unrhyw un yn y cartref gael ei ystyried yn arbennig o 'agored i niwed' Covid-19 o ganlyniad i unrhyw ffactorau demograffig neu gyflyrau iechyd perthnasol <sup>2</sup> ?	Gallai / Na allai	Os <i>Gallai</i> , <i>rhowch fanylion?</i>	
b. A yw'r cleient/unrhyw un yn y cartref wedi cael llythyr gan yr awdurdod iechyd yn nodi bod angen iddyn nhw 'warchod eu hunain' <sup>3</sup> ?	Do / Na	Os <i>Do</i> , <i>dyddiad y llythyr?</i>	

## GOBLYGIADAU AR GYFER YMWELIADAU CARTREF A CHYFARPAR DIOGELU PERSONOL

- ✓ Gellir ymweld **ag aelwydydd sy'n ateb 'na' i'r ddau uchod. Cyfarpar Diogelu Personol safonol sy'n ofynnol:** masg llawfeddygol a menig tafladwy.
- ✓ Gellir ymweld â **chartrefi bregus.<sup>2</sup> Cyfarpar Diogelu Personol safonol sy'n ofynnol:** masg llawfeddygol a menig tafladwy.
- ✓ Gellir ymweld **ag aelwydydd sy'n gwarchod eu hunain.<sup>3</sup> Cyfarpar Diogelu Personol safonol sy'n ofynnol:** masg llawfeddygol, menig tafladwy ac unrhyw Gyfarpar Diogelu Personol ychwanegol a ddiffinnir yn lleol (amddiffynwyr wyneb, ffedog tafladwy/gorchuddwisgoedd a gwarchodwyr traed, yn ôl *Y Canllawiau Cenedlaethol ar Gyfarpar Diogelu Personol*).

### 3. SYMPTOMAU A/NEU BROFIAD O COVID-19

a. A yw'r cleient/unrhyw un yn y cartref wedi profi unrhyw rai o'r symptomau canlynol **yn ystod y 14 diwrnod diwethaf:**

• peswch cyson?	Do / Na	Os Do, dyddiad cychwyn?	
• tymheredd uchel o dwymyn?	Do / Na	Os Do, dyddiad cychwyn?	
• colli blas neu arogl	Do / Na	Os Do, dyddiad cychwyn?	
• anhawster i anadlu / byr eu hanadl?	Do / Na	Os Do, dyddiad cychwyn?	
• unrhyw symptomau eraill a allai fod yn berthnasol?	Do / Na	Os Do, dyddiad cychwyn?	
b. A yw'r cleient/unrhyw un yn y cartref yn gwella o Covid-19?	Ydy / Nac ydy	Os Ydy, a ydynt wedi cael eu profi ac wedi cael cadarnhad nad oes ganddynt Covid-19 bellach?	Ydy / Nac ydy

### GOBLYGIADAU AR GYFER YMWELIADAU A CHYFARPAR DIOGELU PERSONOL:

- ① **Cartrefi gyda symptomau AC sy'n adfer heb ganlyniad prawf negyddol** - gellir ymweld ar gyfer gwaith <sup>1</sup>hanfodol yn unig. **Cyfarpar Diogelu Personol safonol sy'n ofynnol:** amddiffynnwr llygaid/wyneb, masg gwrth-hylif, menig tafladwy a ffedog/gorchuddwisgoedd plastig tafladwy (ac unrhyw Gyfarpar Diogelu Personol ychwanegol a ddiffinnir yn lleol, yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol). Gall **ymweliadau nad ydynt yn hanfodol** fod yn destun asesiad risg pellach mewn 14 diwrnod.

✓ **Cartrefi sy'n adfer sydd wedi cael cadarnhad nad oes ganddynt Covid-19 mwyaf** - gellir ymweld â'r rhain. **Cyfarpar Diogelu Personol safonol sy'n ofynnol:** masg llawfeddygol, menig tafladwy ac, os oes unrhyw aelod o'r aelwyd yn 'gwarchod eu hunain' (gweler cyngor Adran 2 uchod), unrhyw Gyfarpar Diogelu Personol ychwanegol a ddiffinnir yn lleol, yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol.

#### 4. AMLYGIAD POSIBL I COVID-19

a. A yw'r cleient/unrhyw un yn y cartref wedi bod dramor o fewn y 14 diwrnod diwethaf?	Do / Na	Os do, ble a dyddiad dychwelyd?	
b. A yw'r cleient/unrhyw un yn y cartref yn destun unrhyw gyngor 'profi ac olrhain' i hunan-ynysu am 14 diwrnod?	Ydy / Nac ydy	Os ydy, dyddiad cychwyn?	
c. A yw'r cleient/unrhyw un yn y cartref yn gwybod ei fod wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw un sydd wedi cael diagnosis o Covid-19 neu'n achos posibl o Covid-19?	Ydy / Nac ydy	Os ydy, pryd?	

#### GOBLYGIADAU AR GYFER YMWELIADAU CARTREF A CHYFARPAR DIOGELU PERSONOL

- ① **Cartrefi sy'n ateb 'YDY' i unrhyw un o'r uchod** - gellir ymweld os yw'r gwaith yn hanfodol **ac** yn fater brys. **Cyfarpar Diogelu Personol safonol sy'n ofynnol:** masg gwrth-hylif, amddiffynnwr llygaid/wyneb, menig tafladwy a ffedog/gorchuddwisgoedd plastig tafladwy (ac unrhyw Gyfarpar Diogelu Personol ychwanegol a ddiffinnir yn lleol, yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol). Gall **ymweliadau nad ydynt yn hanfodol** fod yn destun asesiad risg pellach mewn 14 diwrnod.
- ✓ **Cartrefi sy'n ateb 'Na' i'r uchod** - gellir ymweld â'r rhain. **Cyfarpar Diogelu Personol safonol sy'n ofynnol:** masg llawfeddygol, menig tafladwy ac, os oes unrhyw aelod o'r aelwyd yn 'gwarchod eu hunain' (gweler cyngor Adran 2 uchod), unrhyw Gyfarpar Diogelu Personol ychwanegol a ddiffinnir yn lleol, yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol.

#### 5. CANIATÂD

a. A oes gan y cleient unrhyw bryderon am yr angen am unrhyw ddiogelwch ychwanegol neu ei Gyfarpar Diogelu Personol ei hun?	Oes / Nac oes	Os oes, beth?	
b. A yw'r cleient yn credu y bydd yn bosibl cadw pellter corfforol drwy gydol yr ymweliad?	Ydy / Nac ydy	Os Nac ydy, pa gamau fydd yn cael eu cymryd?	

c. A yw'r cleient yn deall y mesurau rheoli coronafeirws a drafodwyd, eu cyfrifoldebau eu hunain a chanlyniadau torri'r cytundeb?	Ydy / Nac ydy	<i>Os Nac ydy, a oes rhesymau gwybyddol?</i>	Ydy / Nac ydy
d. A yw'r cleient yn rhoi caniatâd i'r ymweliad fynd rhagddo?	Ydy / Nac ydy	<i>Os Ydy, dyddiad yr ymweliad?</i> <i>Os Nac ydy, y cam nesaf</i>	

## GWIRIAD TERFYNOL: YN UNION CYN GADAEI AM neu WRTH GYRRAEDD YMWELIAD CARTREF

<b>Adolygu, gyda'r cleient, yr atebion i Adrannau 1 – 5 uchod i gofnodi unrhyw newidiadau ers yr Asesiad Risg cychwynnol?</b>	Oes / Nac oes	Os Nac oes, llofnodwch y dyddiad Os oes, ail-aseswch	
Os oes gweithdrefnau gwirio tymheredd y cytunwyd arnynt yn lleol ar waith, gellir cofnodi gwiriad tymheredd a'i lofnodi'n gywir yma.			

### Diffiniadau

1. **Gwaith hanfodol** yw'r rhai a fyddai, pe na baent yn cael eu gwneud, yn gadael cleient mewn perygl o ran eu hiechyd a'u diogelwch. Mae gwaith hanfodol yn cynnwys: gwaith i hwyluso rhyddhau o'r ysbyty, atgyweiriadau brys a/neu hanfodol, a gwaith ataliol sy'n cefnogi iechyd a lles megis addasiadau tai, gwaith atal cwympiadau a gwelliannau i system wresogi ac insiwleiddio'r eiddo.
2. **Agored i niwed coronafeirws:** ystyrir bod pobl dros 70 mlwydd oed a/neu rai o gefndir pobl BAME a/neu'r rhai sydd â chyflwr meddygol sy'n bodoli eisoes gan gynnwys asthma, diabetes, gordewdra, salwch resbiradol a chlefyd y galon, yn fwy agored i niwed Covid-19 a'i effeithiau.
3. **Gwarchod:** pobl sydd wedi derbyn/fydd yn fuan yn derbyn llythyr swyddogol oddi wrth y GIG yn cadarnhau eu hangen i 'warchod eu hunain.'



## **RHESTR WIRIO GRYNO RHEOLAETHAU CORONAFEIRWS**

### **Ar gyfer Staff sy'n ymweld â chartrefi cleientiaid a lleoliadau eraill**

Nod y gweithdrefnau hyn yw lleihau, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol bosibl, y potensial i drosglwyddo Covid-19 i staff rheng flaen, neu ganddynt, wrth iddynt gyflawni gwaith atgyweirio, addasu a gwella gwasanaethau yng nghartrefi pobl hŷn.

#### **Ffit i weithio**

- Mae pawb yn gyfrifol am fonitro eu hiechyd eu hunain ac am ddilyn prosesau cyflogaeth lleol.
- Bydd gan asiantaethau weithdrefnau ffit i weithio a dychwelyd i'r gwaith yn ddiogel clir sy'n benodol i Covid-19.

#### **Gweithio mewn swyddfa**

- Bydd asiantaethau yn ystyried y potensial ar gyfer gweithio ystwyth, yn ystyried pa mor agored yw aelodau staff unigol i Covid-19, yn rhoi gweithdrefnau gweithio swyddfa diogel ar waith, ac yn sicrhau bod Cyfarpar Diogelu Personol priodol ar gael.

**tudalennau 2-4**

#### **Ar y ffordd**

- Dylid canfod ffyrdd amgen o weithio er mwyn lleihau'r angen i deithio. Rhaid i gerbydau fod yn lân, eitemau sy'n cael eu cludo gael eu diheintio, a gweithdrefnau gwisgo, diosg a gwaredu Cyfarpar Diogelu Personol cywir gael eu dilyn wrth gyrraedd/gadael.

**tudalennau 4-5**

#### **Asesu Risg**

- Bydd staff sy'n ymweld â chartrefi yn cynnal Asesiad Risg ffurfiol gyda chleientiaid cyn ymweliad i sefydlu brys a pha mor agored i niwed Covid-19 yw'r preswylwyr, a chytuno ar y mesurau rheoli coronafeirws sy'n ofynnol.

#### **Ymweliad cartref**

- Bydd staff sy'n ymweld â chartrefi yn adolygu'r Asesiad Risg yn union cyn yr ymweliad. Byddant yn cadw pellter corfforol, yn defnyddio masg wyneb a menig tafladwy, yn sicrhau bod yr eitemau'n lân ac yn lliniaru ymhellach os oes angen.

**ATODIAD A a thudalennau 5-6**

## Ymweliadau eraill

- Bydd staff yn sefydlu mesurau diogelu Covid-19 mewn lleoliadau eraill. Byddant yn cadw pellter corfforol, yn sicrhau bod dwylo ac eitemau sy'n cael eu defnyddio yn cael eu golchi/eu diheintio wrth gyrraedd a gadael, ac yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol fel bo'r angen.

**Tudalennau 6-7**